
# CYNGOR TREF LLANELLI
# RHYBUDD TRETH CYNGOR
## 2019/2020

**Bydd Cyngor Tref Llanelli yn praesept £910,000 i'w godi yn erbyn Trethdalwyr Llanelli er mwyn i'r cyngor barhau i gynnal a gwella'r gwasanaethau sy'n bwysig i'n cymuned. Bydd eiddo Band D yn gweld cynnydd yn y Dreth Gyngor o £103.04 yn 2018-19 i £103.64 yn 2019-20.**




### HAMDDEN A CHWARAEON

Mae Cyngor y Dref yn darparu cyfleusterau gwych yn Stebonheath, cartref i Glwb Pêl-droed Tref Llanelli a Rygbi'r Gynghrair Raiders Gorllewin Cymru ac yng Nghanolfan Selwyn Samuel. Cwblhawyd Trosglwyddiad Asedau Parc y Goron, Parc Havelock, Parc y Dre a Pharc Penyfan o'r Cyngor Sir yn ystod 2018 gyda'r Cyngor nawr yn ceisio cwblhau'r isbrydlesi gyda'r clybiau a sefydliadau chwaraeon lleol yn y dyfodol agos. Mae'r Cyngor yn parhau i weithio gyda'r Cyngor Sir i gynnal Caeau Chwarae Penygaer a trwy gyfraniad ariannol y Cyngor Dref ac aelodaeth o Grŵp Cydweithredu Parc Howard yn gweithio mewn partneriaeth â'r Cyngor Sir i reoli Parc Howard ar y cyd, gan sicrhau bod y cyfleuster yn cael ei wella ac yn parhau i fod mewn buddiant cyhoeddus.

### DIGWYDDIADAU A HYRWYDDIADAU

Mae Cyngor y Dref yn cyllido darpariaeth a chynhaliaeth y basgedi blodau yng Nghanol y Dref, mae'r rhain yn wledd o liw drwy fisoedd yr haf. Mae'r Cyngor yn cydweithio'n agos â sefydliadau eraill megis Y Lle ac Ardal Gwella Busnes Llanelli i gefnogi nifer o ddigwyddiadau a drefnwyd yn ystod y flwyddyn, yn bresennol maent yn cynnwys Gŵyl Cerddoriaeth yr 80au, yr Ŵyl Bwyd a'r Pared Ceirw. Mae'r Cyngor hefyd yn gweithio gyda'r Cyngor Sir a Chyngor Gwledig Llanelli i drefnu ac ariannu'r Carnifal Nadolig Blynyddol.

| 2018/2019 £ | | 2019/2020 £ |
|---:|---|---:|
| 1,344 | Diwylliannol a Threftadaeth | 61,381 |
| 410,195 | Hamdden a Chwaraeon | 421,549 |
| 55,000 | Mynwent | 60,000 |
| 224,129 | Cefnogaeth Gymunedol | 208,357 |
| 25,376 | Digwyddiadau a Hyrwyddiadau | 25,024 |
| 17,148 | Llwybrau a Goleuo | 15,262 |
| 216,985 | Dinesig, Democratig a Gweinyddol | 220,143 |
| 15,000 | Prosiectau Cyfalaf | 15,500 |
| -65,510 | Llog a Buddsoddiadau | -100,760 |
| 333 | Arian sy'n Weddill | -16,456 |
| £900,000 | | £910,000 |

### MYNWENT LLANELLI

Mae Cyngor Tref Llanelli yn berchen ar Fynwent y Box ar y cyd gyda Chyngor Gwledig Llanelli a thrwy'r bartneriaeth hon ac ein rôl ar Gyd Pwyllgor Ymgynghorol Claddu Llanelli, yn parhau i ariannu'r fynwent.

### CEFNOGAETH GYMUNEDOL

Mae'r Cyngor yn berchen ac yn rheoli saith canolfan gymunedol sy'n cynnig cyfleusterau cymorthdaledig i bobl o bob oed. Yn ogystal mae'n cynghori a chynorthwyo grwpiau cymunedol ar ystod eang o bynciau ac yn darparu grantiau a nawdd i gefnogi gwaith llawer o glybiau, cymdeithasau a sefydliadau lleol. Mae ein Swyddog Datblygu Cymunedol yn parhau i weithio gyda llawer o gymdeithasau i ddarparu prosiectau megis Treftadaeth Ddiamddiffyn, Ein Tref a Chymunedau Cyfeillgar i Ddementia

### LLWYBRAU A GOLEUO

Mae'r Cyngor yn parhau i archwilio a thori ar hyd llwybrau cyhoeddus y dref ar ran y Cyngor Sir a bydd yn cynnal rhaglen o welliannau i rai o'r llwybrau. Mae'r Cyngor hefyd yn ariannu costau ynni a chynnal y goleuadau stryd ar y llwybrau hyn.

### DINESIG, DEMORATIG A GWEINYDDOL

Dyma'r costau reoli cyfleusterau a gweithgareddau'r Cyngor yn y Gymuned ynghyd â phwyllgorau'r Cyngor a'r faeryddiaeth.

### DIWYLLIANNOL A THREFTADAETH

Mae Cyngor Tref Llanelli yn berchen ar Tŷ Llanelly sydd wedi'i brydlesu i YTASG ar brydles hir. Mae Cyngor y Dref a'r Cyngor Sir yn parhau i gefnogi'r Tŷ i sicrhau bod yr adeilad rhestredig Gradd I yn cael ei chynnal i'r safonau uchel sydd eisoes yn cael eu gosod gan ei alluogi i fod yn ased sylweddol i ganol y dref a'i hymwelwyr.

**Cysylltwch â ni os hoffech logi ystafell gyfarfod neu neuadd ar gyfer parti neu weithgaredd arall.**
**Am fwy o wybodaeth ymwelwch â'r wefan neu dilynwch ni ar Facebook**


**Yr Hen Ficerdy,**
**Sgwâr Neuadd y Dref,**
**LLANELLI, Carms. SA15 3DD**

**Ffôn: 01554 774352**
**e-bost: enquiries@llanellitowncouncil.gov.uk**
**Wefan: www.llanellitowncouncil.gov.uk**